AROLYGIAD O DAN ADRAN 10 Y DDEDDF
AROLYGIADAU YSGOLION 1996

YSGOL Y TRAETH
RHODFA'R TYWYSOG
ABERMAW

Rhif yr Ysgol :661-2181

Dyddiad yr Arolygiad: 19-21 Mai 2003

gan
MR ELWYN LLOYD WILLIAMS
Arolygydd Cofrestredig

Dyddiad: 28 Gorffennaf 2003

Dan Rif Cytundeb Estyn: CT246/02P

® Hawlfraint y Goron 2003

Gellir atgynhyrchu'r Adroddiad hwn yn gyfan neu'n rhannol at ddibenion addysgol anfasnachol cyhyd ag y bo pob rhan a ddyfynnir yn cael eu hatgynhyrchu gair am air heb unrhyw newid a bod eu ffynhonnell a'r dyddiad yn cael eu nodi.

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael o'r ysgol. Dan Ddeddf Arolygiadau Ysgolion 1996, mae'n rhaid i'r ysgol ddarparu copïau yn rhad ac am ddim i gategorïau arbennig o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost atgynhyrchu ar unrhyw un arall a wna gais am gopi o'r adroddiad.

DULL ENWI CWRICWLWM A CHYFNODAU ALLWEDDOL

Cychwynnwyd dull enwi newydd i ddisgrifio cynnydd disgyblion trwy'r ysgol ym 1989. Bwriedir i'r system hon o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg orfodol hyd at 18 oed hwyluso cyfathrebu ymysg ysgolion, cyrff llywodraethu, rhieni ac AALl ac i bwysleisio pwysigrwydd dilyniant.

Mae'r term "Derbyn" (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn y disgyblion mewn ysgol gynradd (nid dosbarth meithrin) sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. "Blwyddyn 1" (B1) a ddefnyddir i grŵp blwyddyn disgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd ac yn y blaen hyd B13 - y grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd:

	D	B1	B2	B3	B4	B5	B6	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13
Oedran	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae cyfnod allweddol (CA) 1 y Cwricwlwm Cenedlaethol yn cynnwys B1 a B2; CA2 yn cynnwys B3 i B6; CA3 yn cynnwys B7 i B9 a CA4 yn cynnwys B10 a B11 (sef blwyddyn olaf addysg orfodol).

DISGRIFIADAU GRADD

Defnyddir y raddfa graddio bum pwynt i gynrychioli'r prif farnau yn yr adroddiad fel a ganlyn:

1. Da iawn: llawer o nodweddion da, rhai yn arbennig o dda.
2. Da: nodweddion da a dim diffygion mawr.
3. Boddhaol: nodweddion da yn gorbwyso rhai diffygion.
4. Anfoddhaol: peth gwaith boddhaol ond diffygion mewn meysydd pwysig.
5. Gwael: llawer o ddiffygion.

CYNNWYS

1. CYD-DESTUN 1

Yr Ysgol a'i Blaenoriaethau 1

2. PRIF GANFYDDIADAU 1

Prif Ganfyddiadau'r Adroddiad 1

3. Y SAFONAU ADDYSGOL A GYFLAWNIR GAN DDISGYBLION 3

3.1 Y Safonau a gyflawnir yn y Pynciau a'r Meysydd Dysgu 3
3.2 Y Safonau a Gyflawnir yn y Medrau Allweddol ar draws y Cwricwlwm 4

4. ETHOS YR YSGOL 5

4.1 Datblygiad Ysbrydol, Moesol, Cymdeithasol a Diwylliannol y Disgyblion 5
4.2 Ymddygiad ac Ymagweddau 5
4.3 Presenoldeb 6

5. ANSAWDD YR ADDYSG 6

5.1 Addysgu 6
5.2 Asesu, Cofnodi a Chyflwyno Adroddiadau 7
5.3 Cwricwlwm 7
5.4 Cymorth, Cyfarwyddyd a Lles Disgyblion 8
5.5 Darpariaeth ar gyfer Disgyblion ag Anghenion Addysgol Arbennig 8
5.6 Partneriaethau gyda Rhieni a'r Gymuned, Ysgolion a Sefydliadau Eraill 9
5.7 Partneriaethau gyda Diwydiant 9

6. RHEOLAETH 10

6.1 Ansawdd Hunan-Arfarnu a Chynllunio ar Gyfer Gwelliant 10
6.2 Arweinyddiaeth ac Effeithlonrwydd 10
6.3 Staffio, Adeiladau ac Ystafelloedd ac Adnoddau Dysgu 11

7. PYNCIAU A MEYSYDD DYSGU 11

Y Safonau a Gyflawnir gan y Disgyblion 11
Darpariaeth ar Gyfer Plant Dan Bump Oed 11
Cymraeg 13
Saesneg 14
Mathemateg 15
Gwyddoniaeth 16
Dylunio a thechnoleg 18
Technoleg gwybodaeth 18
Hanes 19
Daearyddiaeth 20
Celf 20
Cerddoriaeth 21
Addysg gorfforol 21
Addysg grefyddol 22

8. GWELLA'R YSGOL 23

8.1 Cynnydd Ers yr Arolygiad Diwethaf 23
8.2 Materion Allweddol i Weithredu Arnynt 23

ATODIAD 24

A. Gwybodaeth sylfaenol ar yr ysgol 24
B. Data a dangosyddion yr ysgol 24
C. Canlyniadau asesiadau'r CC ac arholiadau cyhoeddus 25
D. Sail dystiolaeth yr arolygiad 26
E. Cyfansoddiad a chyfrifoldebau'r tîm arolygu 27

1. CYD-DESTUN

Yr Ysgol a'i Blaenoriaethau

Lleolir Ysgol y Traeth heb fod nepell o'r môr yn nhref Abermaw, Gwynedd. Ysgol uwchradd ydoedd pan sefydlwyd hi ychydig dros ganrif yn ôl, ond yn 1959 daeth yn ysgol gynradd ac ers hynny cafodd ei haddasu'n gynyddol i gyfarfod ag anghenion plant dan bump, babanod a disgyblion iau.

Roedd 177 o ddisgyblion ar y gofrestr pan wnaed yr arolygiad, gan gynnwys 24 o blant meithrin sy'n mynychu'r ysgol yn y boreau yn unig. Daw'r bron oll o'r disgyblion o dref Abermaw ei hun, a disgrifia'r ysgol yr ardal breswyl fel un dan anfantais economaidd. Mae 30 y cant o'r disgyblion â hawl i brydau am ddim ac fe nodir 43 (24 y cant) fel rhai sydd ag anghenion addysgol arbennig (AAA), gan gynnwys chwech y gwnaethpwyd datganiad ar eu cyfer. Un neu ddau yn unig o'r disgyblion sy'n dod o gartrefi lle siaredir Cymraeg fel iaith gyntaf.

Ymysg amcanion yr ysgol mae meithrin cymdeithas wâr sy'n rhoi pwys ar werthoedd moesol a dyngarol, cynnal a chodi safonau cyflawniad disgyblion ym mhob maes cwricwlaidd, a datblygu gallu'r disgyblion i fyw yn hyderus ddwyieithog mewn Cymraeg a Saesneg.

Mae Cynllun Datblygu'r Ysgol (CDY) yn cynnwys adolygiad o'r targedau a osodwyd ar gyfer 2001-2002 a rhestr o gynlluniau a thargedau ar gyfer y flwyddyn bresennol ac ymlaen i 2005. Ymysg y blaenoriaethau a restrir ar gyfer y flwyddyn gyfredol mae codi safonau Cymraeg, datblygu'r defnydd o dechnoleg gwybodaeth fel erfyn traws gwricwlaidd, ac arfarnu addysgu ar draws yr ysgol. Cynhwysir yn y CDY dargedau meintiol yn y pynciau craidd i'r diben o godi safonau cyrhaeddiad y disgyblion yn y profion cenedlaethol.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yn nhymor yr hydref 1997. Cafodd y pennaeth ei benodi i'w swydd ym Mehefin 2002, yn dilyn cyfnod o tua dwy flynedd a hanner pan oedd mewn gofal.

2. PRIF GANFYDDIADAU

Prif Ganfyddiadau'r Adroddiad

Roedd safonau cyflawniad y disgyblion yn dda neu well mewn oddeutu 65 y cant o'r sesiynau a arsylwyd a boddhaol yn y cyfan o'r gweddill ac eithrio rhyw chwech y cant.

- Mae ansawdd cyffredinol y ddarpariaeth addysgol ar gyfer plant dan bump yn briodol i'w hanghenion ac yn hyrwyddo'r Canlyniadau Dymunol ar gyfer Dysgu Plant. Mae'r safonau yn y chwe maes dysgu fel a ganlyn:

Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu	Da
Datblygiad personol a chymdeithasol	Da iawn
Datblygiad mathemategol	Da
Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd	Da
Datblygiad corfforol	Da
Datblygiad creadigol	Da

- Yng Nghyfnod Allweddol (CA) 1 a CA2, mae safonau cyflawniad y disgyblion yng ngwahanol bynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol (CC) ac addysg grefyddol fel a ganlyn:

	CA1	CA2
Cymraeg	Boddhaol	Anfoddhaol
Saesneg	-	Da
Mathemateg	Da	Da
Gwyddoniaeth	Da	Da iawn
Dylunio a thechnoleg	Da	Da iawn
Technoleg gwybodaeth	Da	Da
Hanes	Da	Da
Daearyddiaeth	Da	Da
Celf	Da	Da
Cerddoriaeth	Boddhaol	Da
Addysg gorfforol	Boddhaol	Da
Addysg grefyddol	Da	Da

- Ers yr arolygiad diwethaf, gwelwyd cynnydd amlwg yn safonau cyflawniad y disgyblion ym mhob un o'r pynciau yn y ddau gyfnod allweddol ac eithrio Cymraeg yn CA2 ac addysg gorfforol yn CA1. Cafwyd cynnydd sylweddol, o foddhaol i dda iawn, mewn gwyddoniaeth a dylunio a thechnoleg yn CA2.

- Yn asesiadau'r CC 2002, roedd canlyniadau'r ysgol yn CA1, ar sail asesiadau'r athrawon, yn cymharu'n dda â'r ffigyrau cenedlaethol mewn mathemateg a gwyddoniaeth, ac roeddynt ychydig bach yn is mewn Cymraeg. Yn CA2, roedd canlyniadau'r profion yn cymharu'n ffafriol iawn â'r cyfartaleddau cenedlaethol mewn Saesneg a gwyddoniaeth ac roeddynt yn cyfateb mewn mathemateg. Roedd y canlyniadau mewn Cymraeg yn sylweddol is na'r cyfartaledd cenedlaethol ac yn y chwartel isaf o'u cymharu â rhai mewn ysgolion tebyg yng Nghymru.

- Yn y sgiliau allweddol ar draws y cwricwlwm, mae'r plant dan bump yn cyflawni safonau da mewn llythrennedd a rhifedd ac yn eu defnydd o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh). Mae cyflawniadau disgyblion CA1 yn foddhaol mewn Cymraeg ac yn dda mewn rhifedd a TGCh. Yn CA2, mae safonau mewn Saesneg ar draws y cwricwlwm yn dda ond maent yn anfoddhaol mewn Cymraeg. Mae'r safonau mewn rhifedd a TGCh yn dda.

- Roedd ansawdd yr addysgu yn dda neu well mewn 70 y cant o'r sesiynau a arsylwyd, yn foddhaol mewn 25 y cant ac anfoddhaol mewn pump y cant. Mae'r athrawon yn ddiwyd a chydwybodol a chynlluniant eu gwersi'n ofalus i sicrhau cydbwysedd o wybodaeth, cysyniadau a sgiliau i'w datblygu. Mewn un neu ddau o ddosbarthiadau mae'r wers ar brydiau yn symud yn rhy araf ac mewn rhai pynciau, yn arbennig Cymraeg neu'r pynciau a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg, bodlonir ar ymatebiadau byr gan y disgyblion a gwneir gor-ddefnydd o daflenni gwaith.

- Mae datblygiad ysbrydol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn dda a'u datblygiad moesol yn dda iawn. Mae'r cyd-addoli dyddiol yn ysgogi datblygiad ysbrydol y disgyblion yn llwyddiannus. Gall y disgyblion wahaniaethu'n glir rhwng da a'r drwg a'r derbyniol a'r annerbyniol a gwyddant sut a phaham y dylid ymddwyn yn gwrtais a chywir ym mhresenoldeb plant ac oedolion o hil gwahanol, beth bynnag eu cred a'u ffordd o fyw.

- Mae ymddygiad ac ymagweddau'r disgyblion yn dda iawn ac mae lefelau presenoldeb dros y tri thymor diwethaf yn foddhaol.

- Mae ansawdd asesu, cofnodi a chyflwyno adroddiadau yn dda. Mae'r asesu yn gywir a chyson a gwneir defnydd da ohono i gynllunio'r dysgu ac i hyrwyddo safonau uwch.
- Mae ansawdd a threfniadaeth y cwricwlwm yn dda ar y cyfan. Mae'r cwricwlwm ar gyfer y plant dan bump yn briodol ac mae'r cwricwlwm yn CA1 a CA2 yn eang, cytbwys a symbylus. Fodd bynnag, mae diffyg cydbwysedd mewn cynllunio'r medrau allweddol ar draws y cwricwlwm gan nad yw'r disgyblion yn astudio dim agwedd o fathemateg na gwyddoniaeth trwy gyfrwng y Gymraeg yn CA2.
- Mae cynlluniau a darpariaeth y Cwricwlwm Cymreig yn dda ac mae ethos yr ysgol ac agwedd yr athrawon yn cyfrannu at ddealltwriaeth y disgyblion o Gymraeg sy'n hybu eu dwyieithrwydd.
- Mae'r disgyblion yn cymryd rhan mewn ystod o weithgareddau all-gyrsiol, gan gynnwys gemau tîm, a gwnânt ddefnydd o ymweliadau addysgol i gefnogi eu dysgu.
- Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag AAA yn dda a chyflawnant safonau da ar y cyfan mewn iaith.
- Mae ansawdd hunan-arfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant yn foddhaol. Mae gweithdrefnau mewn bod i edrych ar agweddau o drefniadaeth yr ysgol a'r gwaith cwricwlaidd fel rhan o'r broses hunan-arfarnu. Mewn rhai achosion mae'r rhain eisoes wedi dylanwadu er gwell ar y ddarpariaeth ac wedi arwain at safonau uwch. Er hynny, heb eu datblygu'n ddigonol mae strategaethau ysgol gyfan a systemau monitro a gwerthuso a fyddai'n sicrhau cyfeiriad clir i waith yr ysgol.
- Mae arweinyddiaeth a rheolaeth yr ysgol yn foddhaol. Mae'r pennaeth, nid yn lleiaf oherwydd iddo fod mewn gofal o'r ysgol am ddwy flynedd a hanner cyn ei benodi y llynedd, yn adnabod yr ysgol yn dda ac yn ei gweinyddu'n effeithiol o ddydd i ddydd. Mae'r cydlynwyr pwnc yn cyflawni agweddau o'u gwaith yn dda ond, gydag un eithriad, nid ydynt yn ymweld â dosbarthiadau fel rhan o'u dyletswyddau monitro. Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol i'r ysgol ac mae ganddynt ddealltwriaeth foddhaol o'i bywyd a'i gwaith.
- Mae'r ysgol wedi ymateb i'r materion allweddol a restrwyd yn adroddiad arolygiad 1997 a chafwyd gwelliant amlwg neu peth gwelliant yn y rhan fwyaf ohonynt.

3. Y SAFONAU ADDYSGOL A GYFLAWNIR GAN DDISGYBLION

3.1 Y Safonau a gyflawnir yn y Pynciau a'r Meysydd Dysgu

Barnwyd bod safonau cyflawniad y disgyblion yn dda mewn 57 y cant o'r gwaith a arsylwyd, yn dda iawn mewn 10 y cant, yn foddhaol mewn 27 y cant ac yn anfoddhaol mewn chwech y cant.

- Mae'r plant dan bump yn cyflawni safonau da iawn yn eu datblygiad personol a chymdeithasol, a safonau da yn y pum maes dysgu arall.
- Yn CA1, yn y pynciau craidd, mae safonau cyflawniad y disgyblion mewn Cymraeg yn dda mewn gwrando ac yn foddhaol mewn siarad, darllen ac ysgrifennu. Maent yn dda mewn mathemateg a gwyddoniaeth. Yn CA2, mae'r disgyblion yn cyflawni safonau boddhaol mewn darllen Cymraeg a da mewn gwrando, ond mae'r safonau mewn siarad ac ysgrifennu yn anfoddhaol. Yn Saesneg, mae'r safonau mewn gwrando, siarad, darllen ac ysgrifennu yn dda. Mae'r safonau mewn mathemateg yn dda ac maent yn dda iawn mewn gwyddoniaeth.

- Yn y pynciau sylfaen, ynghyd ag addysg grefyddol, mae safonau cyflawniad y disgyblion yn CA1 yn dda yn y cyfan ac eithrio cerddoriaeth ac addysg gorfforol ble maent yn foddhaol. Yn CA2, mae safonau cyflawniad yn dda iawn mewn dylunio a thechnoleg ac yn dda yn y gweddill.
- Ers yr arolygiad diwethaf, gwelwyd cynnydd amlwg yn safonau cyflawniad y disgyblion ym mhob un o'r pynciau yn y ddau gyfnod allweddol ac eithrio Cymraeg yn CA2 ac addysg gorfforol yn CA1. Cafwyd cynnydd sylweddol, o foddhaol i dda iawn, mewn gwyddoniaeth a dylunio a thechnoleg yn CA2.
- Mae'r genethod yn cyflawni'n well na'r bechgyn mewn Cymraeg a Saesneg, ond nid oes gwahaniaethau amlwg yn y pynciau eraill. Mae'r disgyblion sydd ag AAA yn gwneud cynnydd cadarn ac yn cyflawni safonau da ar y cyfan.
- Yn asesiadau'r CC 2002, roedd canlyniadau'r ysgol yn CA1, ar sail asesiadau'r athrawon, yn cymharu'n dda â'r ffigyrau cenedlaethol mewn mathemateg a gwyddoniaeth, ac roeddynt ychydig bach yn is mewn Cymraeg. Ni chafodd neb o'r disgyblion lefel 3 mewn Cymraeg.
- Yng nghanlyniadau asesiad y CC 2002 ar gyfer CA2, roedd canlyniadau'r profion yn cymharu'n ffafriol iawn â'r cyfartaleddau cenedlaethol mewn Saesneg a gwyddoniaeth ac roeddynt yn cyfateb mewn mathemateg. Roedd y canlyniadau mewn Cymraeg yn sylweddol is na'r cyfartaledd cenedlaethol ac yn y chwartel isaf o'u cymharu â rhai mewn ysgolion tebyg yng Nghymru. Ac eithrio mathemateg ble roedd canlyniadau'r bechgyn ar y blaen yn glir, perfformiodd y merched gryn dipyn yn well na'r bechgyn mewn Saesneg a Chymraeg a pheth yn well mewn gwyddoniaeth. Cafodd tri chwarter y disgyblion lefel 5 mewn gwyddoniaeth.

3.2 Y Safonau a Gyflawnir yn y Medrau Allweddol ar draws y Cwricwlwm

Mae'r plant dan bump yn cyflawni safonau da mewn llythrennedd a rhifedd ac yn eu defnydd o TGCh. Mae disgyblion CA1 yn cyflawni safonau boddhaol mewn Cymraeg a da mewn rhifedd a TGCh. Yn CA2, mae'r safonau mewn Cymraeg yn anfoddhaol ond maent yn dda mewn Saesneg, rhifedd a TGCh.

- Mae'r plant dan bump yn gwrando'n dda ac yn siarad gyda hyder cynyddol hefo'u cyfoedion ac oedolion. Maent yn dechrau edrych gyda diddordeb ar lyfrau ac mae'r rhai hynaf yn mwynhau profiadau ysgrifennu sylfaenol.
- Yn CA1, mae'r disgyblion yn gwrando'n dda ac maent yn cyflawni safonau boddhaol mewn siarad, darllen ac ysgrifennu ar draws y cwricwlwm. Yn CA2, mae'r disgyblion yn gwrando'n dda ac yn cyflawni safonau da mewn siarad, darllen ac ysgrifennu Saesneg ar draws y cwricwlwm. Mewn Cymraeg, er bod rhai unigolion ym mhob dosbarth yn cyflawni safonau boddhaol mewn siarad a darllen yn y pynciau sylfaen, anfoddhaol yw'r safonau ar y cyfan. Nid yw disgyblion CA2 yn astudio dim agwedd o'r ddau bwnc craidd arall, mathemateg a gwyddoniaeth, drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Mae'r plant dan bump yn cyflawni safonau da yn eu defnydd o rifedd ar draws y cwricwlwm; maent yn cyd-ganu rhigymau rhif ac yn datblygu iaith fathemategol drwy eu profiadau gyda dŵr a thywod. Yn CA1 a CA2, mae'r disgyblion yn gwneud defnydd cyson ac effeithiol o agweddau ar rifedd, megis mesur a chofnodi data, yn eu gwersi gwyddoniaeth, daearyddiaeth, dylunio a thechnoleg a thechnoleg gwybodaeth.

- Mae'r plant dan bump yn datblygu sgiliau sylfaenol TGCh yn hyderus, ac mae'r disgyblion yn CA1 a CA2 yn cymhwyso eu medrau TGCh yn dda mewn nifer helaeth o bynciau. Mae'r disgyblion hynaf yn defnyddio sgiliau archwilio gwybodaeth yn effeithiol i gefnogi eu dysgu ar draws y cwricwlwm.
- Mae'r disgyblion sydd ag AAA yn cyflawni safonau da ar y cyfan, cymesur â'u lefelau gallu, mewn iaith, rhifedd a TGCh.

4. ETHOS YR YSGOL

4.1 Datblygiad Ysbrydol, Moesol, Cymdeithasol a Diwylliannol y Disgyblion

Mae datblygiad moesol y disgyblion yn dda iawn a'u datblygiad ysbrydol, cymdeithasol a diwylliannol yn dda.

- Mae'r ysgol yn cyfarfod â'r gofynion statudol o ran darparu gweithred ddyddiol o gydaddoli. Mae'r gwasanaethau a gynhelir yn y neuadd i'r ysgol gyfan neu i adrannau ar wahân yn achlysuron dymunol sy'n ysgogi datblygiad ysbrydol y disgyblion yn llwyddiannus. Rhoddir ystyriaeth i faterion addas ac mae'r disgyblion yn aml yn cymryd rhan flaenllaw yn y cyflwyniadau.
- Mae'r ysgol yn hyrwyddo safonau moesol y disgyblion yn dda iawn. Mae'r disgyblion yn gwybod y gwahaniaeth rhwng da a'r drwg a'r derbyniol a'r annerbyniol, a dangosant barch a chwrteisi i'w hathrawon, cyd-ddisgyblion ac ymwelwyr. Trafodant yn ystod 'amser cylch' pa mor bwysig yw dilyn yr egwyddorion a'r gwerthoedd gorau, gan gynnwys ymddwyn yn deg a chywir tuag at blant ac oedolion o hil gwahanol, beth bynnag eu cred a'u dull o fyw. Mae'r disgyblion yn codi arian yn rheolaidd i gefnogi achosion da ac elusennau.
- Mae datblygiad cymdeithasol y disgyblion yn dda. Maent yn cydweithredu'n agos pan yn gweithio mewn parau ac mewn grwpiau gan rannu syniadau ac adnoddau â'i gilydd. Rhoddir dyletswyddau i rai disgyblion yn y dosbarthiadau neu yn ystod yr egwyl, a chyflawnant y tasgau hyn yn gydwybodol.
- Mae gan y disgyblion wybodaeth gadarn am agweddau ar ddiwylliant a thraddodiadau Cymru, ac mae nifer ohonynt yn cymryd rhan yng ngweithgareddau'r Urdd. Mae ymwybyddiaeth y disgyblion o ddiwyddiannau eraill yn datblygu'n dda, yn arbennig o ganlyniad i'r gwaith a gyflawnant mewn gwersi daearyddiaeth, hanes ac addysg grefyddol.

4.2 Ymddygiad ac Ymagweddau

Mae ymddygiad ac ymagweddau'r disgyblion yn dda iawn.

- Mae polisiau a gweithdrefnau ymddygiad yr ysgol yn glir, ac mae'r drefn o gydnabod ymddygiad da yn effeithiol.
- Mae Cynllun Dina, a weithredir yn effeithiol yng ngwaelod yr ysgol, yn datblygu gallu'r disgyblion i ymateb yn gadarnhaol i amryw o sefyllfaoedd.
- Mae gan y disgyblion agwedd gadarnhaol tuag at eu gwaith ac maent yn canolbwyntio'n dda yn ystod y gwersi.

- Mae'r disgyblion yn cymdeithasu a chwarae gyda'i gilydd yn dda ac yn cydweithio'n effeithiol yn y dosbarth.
- Gweithredir polisiau clir ar gyfle cyfartal ac atal bwlio. Ni welwyd unrhyw enghraifft o fwlio yn ystod yr arolygiad.

4.3 Presenoldeb

Y mae lefelau presenoldeb yn foddhaol.

- Mae gan yr ysgol ystod dda o bolisiau a gweithdrefnau i hybu a chynnal presenoldeb, ac mae'n gosod targed i wella.
- Y mae'r cofrestrau yn cael eu gweinyddu yn unol â gofynion y Cynulliad Cenedlaethol.
- Y mae'r ysgol yn fyw i unrhyw batrymau o absenoldebau sydd yn codi, ac maent gweithredu yn ôl yr angen. Mae maint a chynnwys llythyrau'r rhieni yn dangos eu bod yn ymwybodol o'r drefn ac o'u cyfrifoldebau.
- Y mae presenoldeb y plant dan bump yn adlewyrchu lefelau'r ysgol gyfan yn agos.
- Y mae prydlondeb yn dda ac y mae hyn yn hyrwyddo dechreuad ebrwydd i'r diwrnod ysgol.

5. ANSAWDD YR ADDYSG

5.1 Addysgu

Roedd ansawdd yr addysgu'n dda mewn 56 y cant o'r sesiynau a arsylwyd, yn dda iawn mewn 14 y cant, yn foddhaol mewn 25 y cant ac yn anfoddhaol mewn pump y cant.

- Mae'r athrawon yn ddiwyd a chydwybodol a gwyddant fod gan y disgyblion sydd yn eu dosbarth ystod o anghenion.
- Mae ganddynt wybodaeth gadarn o'r pynciau a addysgant ac o ofynion y CC ac o'r Canlyniadau Dymunol ar gyfer y plant dan bump.
- Gwneir defnydd helaeth o wybodaeth arbenigol yr athrawon yn CA2, ac mae hyn yn hyrwyddo safonau uwch mewn nifer o bynciau.
- Mae'r ystod o brofiadau a ddarperir ar gyfer y plant dan bump yn sicrhau eu bod yn gwneud cynnydd priodol yn y chwe maes dysgu. Mae'r rhaglen waith yn amrywiol a diddorol a deellir yn llawn bwysigrwydd chwarae pwrpasol.
- Cynllunnir gwersi yn ofalus yn CA1 a CA2 i sicrhau cydbwysedd o wybodaeth, cysyniadau a sgiliau i'w datblygu.
- Mae'r cyflwyniadau yn aml yn fywiog a dychmygus ac yn llwyddo i symbylu'r disgyblion.
- Defnyddir amrywiaeth o strategaethau addysgu sydd gan amlaf yn gweddu i'r topigau a gyflwynir a'r tasgau a roddir.
- Ar brydiau, mewn un neu ddau o ddosbarthiadau, mae'r wers yn symud yn rhy araf a rhai disgyblion o ganlyniad yn tueddu i golli diddordeb.

- Mewn rhai pynciau, yn arbennig y Gymraeg neu bynciau a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg, tueddir i fodloni ar ymatebion llafar byr gan y disgyblion, a gwneir gorddefnydd o daflenni gwaith.

5.2 Asesu, Cofnodi a Chyflwyno Adroddiadau

Mae ansawdd asesu, cofnodi a chyflwyno adroddiadau yn dda.

- Ceir polisi ysgol gyfan sy'n fanwl ac yn rhoi canllawiau clir i'r athrawon.
- Gweithredir yn briodol i asesu cyraeddiadau'r plant dan bump yn unol â chanllawiau'r drefniadaeth asesu sylfaen.
- Mae'r athrawon yn asesu'n gyson ac yn seiliedig ar ofynion rhaglenni astudio'r CC. Defnyddir lefelau'r CC i asesu cyflawniad disgyblion a cheir safoni effeithiol o lefelau yn y pynciau craidd.
- Dadansoddir canlyniadau'r asesiadau a defnyddir y wybodaeth i adolygu'r ddarpariaeth i unigolion ac i grwpiau bach, ac i ddatblygu'r cwricwlwm.
- Mae gwaith ysgrifenedig y disgyblion yn cael ei farcio'n rheolaidd ac mae'r sylwadau ar y cyfan yn galluogi'r disgyblion i wella ansawdd eu gwaith.
- Mae ffolio unigol y disgyblion, ynghyd â'r asesiadau yn y portffolio pynciol, yn cynnwys cofnodion manwl o gynnydd y disgyblion ac mae'r rhain yn cael eu diweddaru'n gyson. Trosglwyddir y wybodaeth i'r dosbarthiadau perthnasol.
- Mae'r ysgol yn cydymffurfio'n llawn â'r gofynion statudol ar gyfer disgyblion sydd wedi'u dynodi ag AAA. Darperir asesiadau addas o'u anghenion ynghyd â chynlluniau addysg unigol ar gyfer bob un.
- Mae'r adroddiadau blynyddol i rieni'n cydymffurfio'n llawn â'r gofynion statudol. Rhoddir adroddiad i'r rhieni ar gynnydd eu plant ymhob agwedd o'r cwricwlwm ond nid yw'r sylwadau bob amser yn rhoi sylw digonol i'r camau nesaf yn eu dysgu. Caiff rhieni eu gwahodd i'r ysgol deirgwaith y flwyddyn i drafod datblygiad eu plant a bydd cyfle iddynt ymateb i'r adroddiad mewn cyfarfod gyda'r athrawon dosbarth yn nhymor yr haf.

5.3 Cwricwlwm

Mae ansawdd a threfniadaeth y cwricwlwm yn dda ar y cyfan.

- Mae'r cwricwlwm ar gyfer y plant dan bump yn briodol. Mae'r gwaith wedi'i gynllunio yn dda ac yn hyrwyddo'r dysgu a'r addysgu yn llwyddiannus.
- Yn CA1 a CA2, mae'r cwricwlm yn eang, yn gytbwys ac yn symbylus. Caiff holl bynciau'r CC ac addysg grefyddol eu haddysgu am gyfnodau priodol o amser a rhoddir pwyslais da ar ddatblygiad personol a chymdeithasol y disgyblion.
- Mae'r cynllunio ar gyfer datblygu medrau allweddol ar draws y cwricwlwm yn dda mewn Cymraeg yn CA1, Saesneg yn CA2 a rhifedd a TGCh yn y ddau gyfnod allweddol. Fodd bynnag, nid oes cyfle i ddisgyblion astudio dim agwedd o fathemateg na gwyddoniaeth trwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod y pedair blynedd y maent yn CA2.
- Mae cynlluniau a darpariaeth y Cwricwlwm Cymreig yn dda ac mae ethos yr ysgol ac agwedd yr athrawon yn cyfrannu at ddealltwriaeth y disgyblion o Gymraeg sy'n hybu eu dwyieithrwydd.

- Mae cynlluniau gwaith cynhwysfawr i gefnogi pob pwnc. Maent wedi'u diweddaru'n addas ac mae eu hansawdd yn gyffredinol dda.
- Mae cynlluniau'r athrawon yn canolbwyntio'n briodol ar nodau dysgu.
- Cyfoethogir y cwricwlwm gan raglen amrywiol o weithgareddau allgyrsiol gan gynnwys gemau tîm gweithgareddau'r Urdd. Gwneir defnydd addas o ymweliadau addysgol i gefnogi dysgu'r disgyblion.
- Mae gan yr ysgol bolisi cyfleoedd cyfartal a pholisi cydraddoldeb hiliol. Caiff y rhain eu hyrwyddo'n gyson drwy drefniant y cwricwlwm, y cydaddoliad dyddiol a'r 'amser cylch', a thrwy ethos cyffredinol yr ysgol.
- Mae'r disgyblion ag AAA yn cymryd rhan llawn ym mhob agwedd ar y cwricwlwm.
- Ceir polisi eglur ar waith cartref ac mae'r rhieni'n gefnogol o'i gynnwys.

5.4 Cymorth, Cyfarwyddyd a Lles Disgyblion

Mae ansawdd y cymorth a'r cyfarwyddydd a roddir i'r disgyblion yn dda.

- Mae'r amgylchedd a ddarperir gan y staff yn ofalgar ac yn gefnogol. Gwna hyn gyfraniad gwerthfawr i ansawdd yr addysg a ddarperir.
- Mae'r athrawon a'r staff cynorthwyol yn adnabod y disgyblion yn dda ac yn eu parchu fel unigolion ac mae'r disgyblion yn troi atynt yn rhwydd am gymorth a chyngor.
- Caiff y disgyblion eu goruchwylio'n dda yn ystod y dydd, gan gynnwys amser egwyl.
- Mae gan yr ysgol bolisïau a gweithdrefnau priodol ar gyfer sicrhau lles disgyblion tra maent yn yr ysgol. Mae'r dogfennau yn hysbys i bob aelod o'r staff a gweithredir hwy yn effeithiol.
- Mae gan yr ysgol bolisïau iechyd a diogelwch addas.
- Cynhelir ymarferion tân yn gyson ac mae gan aelodau'r staff gymwysterau cymorth cyntaf.
- Rhoddir pwyslais priodol ar gynhwysiad cymdeithasol a chyfleoedd cyfartal o fewn rhaglen waith a gweithgareddau'r ysgol.

5.5 Darpariaeth ar gyfer Disgyblion ag Anghenion Addysgol Arbennig

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag AAA yn dda a chyflawnant safonau da ar y cyfan.

- Mae'r trefniadau ar gyfer adnabod a monitro disgyblion ag AAA yn dda ac yn cydymffurfio'n llawn â gofynion y Côd Ymarfer.
- Y mae 43 o ddisgyblion ar y gofrestr AAA ac mae chwech o'r rhain yn meddu ar ddatganiad. Mae 14 yn elwa o ddarpariaeth seiliedig ar Weithredu gan yr Ysgol a'r gweddill o ddarpariaeth seiliedig ar Weithredu gan yr Ysgol a Mwy.
- Mae'r holl ddisgyblion yn cael mynediad llawn i'r CC ac addysg grefyddol.
- Mae'r cynlluniau addysg unigol (CAU) wedi'u llunio'n dda gan y cydlynydd AAA (CAAA) mewn cydweithrediad â'r athrawon dosbarth. Mae'r rhain yn glir ac yn gosod targedau dysgu penodol a mesuradwy sy'n cyfateb yn briodol ag anghenion pob disgybl.

- Mae pump o'r disgylion sydd â datganiadau yn mynychu uned AAA mewn tref gyfagos bob bore. Mae gweddill y disgyblion ar y gofrestr AAA yn cael eu cefnogi'n dda gan athrawes ran amser sy'n darparu sesiynau grŵp ar wahân iddynt. Mae'r sesiynau hyn wedi'u strwythuro'n dda i gwrdd ag anghenion penodol y disgyblion.
- Darperir tasgau gwahaniaethol addas i'r disgyblion yn y dosbarthiadau a chynigir cymorth da gan yr athrawon a'r staff cymorth. Gweithredir y cynllun gwella sillafu a darllen yn effeithiol gan y gynorthwy-wraig a gwna'r disgyblion gynnydd da.
- Mae'r CAAA yn cyflawni ei rôl yn effeithiol. Mae ganddi wybodaeth dda o'r disgyblion ac mae'n monitro ac asesu yn gyson i sicrhau bod y disgyblion yn gwneud cynnydd sy'n cydweddu â'u gallu a'u datblygiad addysgol.
- Mae'r llywodraethwraig sy'n gyfrifol am anghenion arbennig yn gefnogol iawn. Mae'n ymweld â'r ysgol yn rheolaidd ac yn monitro gweithrediad polisi AAA yr ysgol trwy gyfarfodydd gyda'r CAAA.

5.6 Partneriaethau gyda Rhieni a'r Gymuned, Ysgolion a Sefydliadau Eraill

Y mae'r bartneriaeth gyda'r rhieni a'r gymuned, ysgolion a sefydliadau eraill yn dda.

- Mae'r wybodaeth a ddarperir i'r rhieni yn dda; mae'n cynnwys llythyrau, llawlyfr yr ysgol, adroddiadau a thaflen newyddion a gyhoeddir yn rheolaidd.
- Mae'r rhieni yn canmol parodrwydd y staff i drafod unrhyw broblem neu bryder a all fod ganddynt mewn perthynas â'u plant. Maent yn ymwybodol fod croeso iddynt i alw i'r ysgol unrhyw amser.
- Daw rhai rhieni i mewn i'r ysgol i roi cymorth yn y dosbarth, ac mae eraill yn barod iawn eu help ar achlysuron arbennig.
- Mae'r Cytundeb Cartref/Ysgol o ansawdd da, ac arwyddwyd ef gan bron oll o'r rhieni.
- Cyfranna Cymeithas Cyfeillion yr Ysgol arian sylweddol iddi a defnyddir ef yn bennaf i ychwanegu at yr adnoddau sydd ar gael at ddefnydd y disgyblion.
- Mae'r ysgol yn chwarae rhan amlwg yng ngweithgareddau cymdeithasol, diwylliannol ac elusennol y gymuned.
- Mae partneriaeth dda gydag ysgolion cynradd eraill y cylch a chyda'r ysgol uwchradd sy'n derbyn mwyafrif y disgyblion.
- Mae'r ysgol wedi ffurfio cysylltiadau da â sefydliadau lleol a'r gwasanaethau cyhoeddus.
- Mae'n darparu cyfleodd profiadau gwaith i ddisgyblion o'r ysgolion uwchradd a myfyrwyr o Goleg Meirion Dwyfor ac, yn achlysurol, profiadau arsylwi i ddarpar athrawon.

5.7 Partneriaethau gyda Diwydiant

Mae partneriaeth gyda diwydiant yn dda.

- Er nad oes gan yr ysgol bolisi yn y maes hwn, mae'r disgyblion yn elwa o bartneriaethau gyda rhai busnesau lleol a nifer o gysylltiadau â byd gwaith.
- Mewn perthynas â gwahanol themâu ac agweddau o'r cwricwlwm, gwahoddir aelodau o'r gymuned, er enghraifft deintydd lleol, i'r ysgol i sgwrsio am eu gwaith.

- Mae dealltwriaeth y disgyblion o ffynhonnell a natur ynni wedi cynyddu yn dilyn ymweliad â phwerdai, ac arweiniodd ymweliad disgyblion B6 â phwll glo ym Mlaenafon yn y de i adeiladu model ohono yn eu dosbarth.
- Mae cyswllt agos rhwng yr ysgol a phrosiect astudio adeiladwaith yn y dref o dan nawdd Bwrdd Hyfforddiant y Diwydiant Adeiladu [CITB], ac mae cyswllt ag ELWa yn datblygu'n gynyddol.

6. RHEOLAETH

6.1 Ansawdd Hunan-Arfarnu a Chynllunio ar Gyfer Gwelliant

Mae ansawdd hunan-arfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant yn foddhaol.

- Mae gweithdrefnau mewn bod i edrych ar agweddau o drefniadaeth yr ysgol a'r gwaith cwricwlaidd fel rhan o'r broses hunan-arfarnu. Mewn rhai achosion, yn arbennig mewn perthynas â'r cwricwlwm, mae'r rhain eisoes wedi dylanwadu er gwell ar y ddarpariaeth ac wedi arwain at safonau uwch. Er hynny, heb eu datblygu'n ddigonol mae strategaethau ysgol gyfan a systemau monitro a gwerthuso a fyddai'n sicrhau cyfeiriad clir i waith yr ysgol.
- Mae dogfen hunan-arfarnu'r ysgol yn dynodi'r meysydd a gafodd eu monitro'n ddiweddar ond nid yw'n glir yn y ddogfen ar ba sail y daethpwyd i farn ynglŷn â hwy.
- Mae adrannau defnyddiol yn y CDY, yn eu plith adolygiad o'r blaenoriaethau a osodwyd ar gyfer 2001-2002 a rhestr o gynlluniau a thargedau ar gyfer y flwyddyn bresennol ac ymlaen i 2005.
- Mae'r amcanion cyfredol ar gyfer gwelliant yn rhestru ym mysg y blaenoriaethau yr angen i godi safonau mewn Cymraeg, ac i arfarnu addysgu ar draws yr ysgol. Mae'r rhain yn gwbl briodol ar gyfer anghenion presennol yr ysgol.
- Gosodir targedau meintiol ar gyfer y disgyblion ond nid yw'r rhain bob amser yn ddigon uchelgesiol.
- Mae'r ysgol yn dadansoddi ei pherfformiad ym mhrofion y CC yn ofalus.
- Ymatebodd yr ysgol i'r materion allweddol yn adroddiad 1997 a chafwyd gwelliant amlwg mewn rhai ohonynt. Er hynny, mae nifer o'r materion a godwyd angen sylw pellach ac adlewyrchir hynny yn y materion allweddol a gynhwysir ar ddiwedd yr adroddiad hwn. (Adran 8.2)

6.2 Arweinyddiaeth ac Effeithlonrwydd

Mae arweinyddiaeth a rheolaeth yr ysgol yn foddhaol.

- Mae gan yr ysgol nodau a gwerthoedd priodol, gan gynnwys ymrwymiad clir i ddarparu cyfleoedd cyfartal i bawb.
- Mae'r pennaeth, a fu mewn gofal o'r ysgol am gyfnod o ddwy flynedd a hanner cyn ei benodi y llynedd, yn adnabod yr ysgol yn dda ac yn ei gweinyddu'n effeithiol o ddydd i ddydd.
- Mae'r cydlynwyr pwnc yn adolygu a diweddaru'r cynlluniau gwaith yn drylwyr, yn mynychu ac adrodd ar gyrsiau yn eu meysydd ac yn gofalu bod adnoddau digonol ar gael. Maent hefyd wedi casglu ynghyd samplau o waith y disgyblion a'u lefelu. Fodd

bynnag, ac eithrio'r cyd-lynydd mathemateg, nid yw'r gweddill wedi ymweld â dosbarthiadau eu cydathrawon yn CA1 nac, lle mae hynny'n berthnasol, yn CA2.

- Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol i'r ysgol ac mae ganddynt ddealltwriaeth foddhaol o'i bywyd a'i gwaith. Mae gan rai aelodau gyswllt â phynciau penodol a rhoddant fel corff ystyriaeth addas i bolisiau a chynlluniau'r ysgol.
- Mae'r pennaeth a'r corff llywodraethol yn gweinyddu'r gyllideb yn effeithiol ac effeithlon.

6.3 Staffio, Adeiladau ac Ystafelloedd ac Adnoddau Dysgu

Mae ansawdd y staffio, adeiladau a'r adnoddau dysgu yn dda ac mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o'i hadnoddau.

- Mae gan yr ysgol saith o athrawon amser llawn, gan gynnwys y pennaeth, a dwy athrawes ran amser. Maent yn meddu ar gymwysterau addas ac mae swydd ddisgrifiad gan bob un. Gwneir defnydd da o gymhwysterau ac arbenigedd athrawon i gwrdd ag ystod anghenion y disgyblion. Mae mwyafrif y cydlynwyr cwricwlaidd yn gyfrifol am addysgu eu pynciau i bob dosbarth yn CA2.
- Mae'r athrawon wedi mynychu ystod dda o gyrsiau hyfforddiant mewn swydd (HMS) ac mae'r gwaith a gyflawnwyd ac a drafodwyd gan y staff wedi dylanwadu'n gadarnhaol ar agweddau o'r addysg.
- Gwneir defnydd effeithiol o weinyddesau meithrin a chynorthwywyr gofal ac maent yn darparu cefnogaeth sensitif a gofalgar. Ceir cefnogaeth dda gan yr athrawon teithiol arbenigol a gwneir defnydd effeithiol o wirfoddolwyr i gefnogi gwahanol agweddau o'r cwricwlwm.
- Mae cyflwr cyffredinol yr ysgol yn dda. Mae'r ystafelloedd dysgu yn ddigonol ar gyfer holl agweddau'r cwricwlwm a gwneir defnydd o ystafelloedd ychwanegol ar gyfer dylunio a thechnoleg, technoleg gwybodaeth a llyfrgell.
- Ceir arddangosfeydd o ansawdd da o amgylch yr ysgol, gan gynnwys ffotograffiau, gwaith celf, technoleg a murluniau, sy'n adlewyrchu'r ystod eang o brofiadau a ddarperir. Mae'r rhain yn gymorth i gynyddu hunan-barch y disgyblion ac i ddangos bod eu gwaith yn cael ei werthfawrogi.
- Mae buarth yr ysgol wedi ei farcio'n dda ar gyfer gemau ac mae'r cae helaeth cyfochrog yn adnodd gwerthfawr ac yn cael ei ddefnyddio'n briodol.
- Ar y cyfan mae adnoddau da ar gyfer pob pwnc a defnyddir hwy'n effeithiol yn y gwersi gan y staff a'r disgyblion. Ceir cyflenwad da o gyfrifiaduron yn y dosbarthiadau ac yn yr ystafell gyfrifiaduron.

7. PYNCIAU A MEYSYDD DYSGU

Y Safonau a Gyflawnir gan y Disgyblion

Darpariaeth ar Gyfer Plant Dan Bump Oed

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer plant dan bump yn briodol ac yn hyrwyddo'r Canlyniadau Dymunol ar gyfer Dysgu Plant. Mae'r safonau a gyflawnir yn y dosbarth meithrin a'r dosbarth derbyn yn dda iawn mewn datblygiad personol a chymdeithasol ac yn dda yn y meysydd dysgu eraill.

Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu

Nodweddion da

- Mae'r plant yn mwynhau gwrando ar storiau a chyflwyniadau amrywiol ac yn barod i ateb cwestiynau neu wneud sylw byr. Mae profiadau ymarferol, gan gynnwys chwarae rôl, yn eu cymell i ddefnyddio iaith mewn sefyllfaoedd real. Maent yn mwynhau edrych ar lyfrau cyfarwydd ac yn dod i ddeall bod yna ystyr i eiriau mewn llyfrau. Maent yn ffurfio llythrennau yn gywir trwy dros ysgrifennu a thanysgrifennu, ac mae'r goreuon yn ffurfio brawddegau gwreiddiol ac yn tynnu lluniau diddorol i gyd-fynd a'r frawddeg.

Datblygiad personol a chymdeithasol

Nodweddion da

- Trwy gydweithio a chyd-chwarae mae sgiliau personol a chymdeithasol y plant yn datblygu'n dda iawn. Maent yn ymateb yn aeddfed i'r sefyllfaoedd a osodir iddynt yng Nghynllun Dina, a byddant yn dangos parodrwydd i rannu a chymryd tro pan yn ymwneud â gweithgareddau o amgylch y dosbarth. Yn gyffredinol, maent yn ymddwyn yn dda tuag at ei gilydd ac maent yn gwrtais yn eu hymwneud ag eraill.

Datblygiad mathemategol

Nodweddion da

- Trwy weithgareddau chwarae, mae'r plant yn dysgu ac yn defnyddio iaith fathemategol yn gynyddol gywir, ac maent yn medru rhifo, trefnu a didoli gyda chryn hyder. Medrant ddosbarthu gwrthychau yn ôl eu maint ac mae ganddynt ddealltwriaeth o gysyniadau sy'n ymwneud â'r mesuriadau megis byrraf a talaf, lleiaf a mwyaf. Maent yn adnabod ac enwi nifer o ffurfiau 2-D a 3-D ac yn eu defnyddio i greu patrymau a thynnu llun. Maent yn defnyddio arian yn achlysurol wrth chwarae rôl yn y caffi a'r siop, ac yn datblygu eu sgiliau trwy chwarae gemau a defnyddio offer priodol.

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

Nodweddion da

- Mae'r plant yn siarad am eu hamgylchedd, teuluoedd a digwyddiadau yn y gorffennol a'r presennol. Trwy edrych ar luniau, trafod arteffactau a gwrando ar ymwelwyr, dônt i ddeall y cysyniad o newid dros amser. Maent yn dangos ymwybyddiaeth o ardal Abermaw, a thrwy weithgareddau mapio amrywiol, sy'n ddilyniant i lyfr thema, gallant enwi nodweddion daearyddol yr ardal, megis môr, mynydd, afon. Mae ganddynt ddealltwriaeth o'r gwhaniaeth rhwng nos a dydd ynghyd â gwybodaeth sylfaenol o drefn y dydd. Medrant ragfynegi a gwerthfawrogi'r gwahaniaeth mewn deunyddiau, er enghraifft, y rhai sy'n suddo ac arnofio, a deallant gylch bywyd y broga. Maent yn hyderus wrth ddefnyddio'r cyfrifiadur ac yn cael budd mawr o'r rhaglenni sydd ar gael ar eu cyfer.

Datblygiad corfforol

Nodweddion da

- Mae'r plant yn defnyddio offer bychan yn dda ac maent yn gallu adeiladu a chreu gyda blociau a chitiau adeiladu. Symuda'r plant yn hyderus ac yn llawn dychymyg; maent yn rhedeg, hopian a dringo ac yn symud ar wahanol lefelau ac mewn gwahanol gyfeiriadau. Defnyddiant y gofod yn y neuadd yn dda a dilynant gyfarwyddiadau'n gywir. Maent yn gweithio'n dda mewn grwpiau a throsglwyddant yn hawdd o un gweithgaredd i'r llall.

Datblygiad creadigol

Nodweddion da

- Mae'r plant yn gwneud lluniau a phatrymau mewn nifer o gyfryngau, ac yn llwyddo i greu lluniau ar y cyfrifiadur. Maent yn trin offer paentio'n dda a dangosant gynnydd wrth drafod offer sy'n torri a gludo. Gallant ganu amrywiaeth o ganeuon a hwiangerddi traddodiadol ar eu côf. Defnyddiant offerynau taro ac maent yn gallu eu henwi a'u chwarae'n effeithiol.

Diffygion

- Nid oes diffygion arwyddocaol.

Cymraeg

Mae safonau cyflawniad yn CA1 yn dda mewn gwrando ac yn foddhaol mewn siarad, darllen ac ysgrifennu. Yn CA2, mae safonau'n dda mewn gwrando, yn foddhaol mewn darllen ac yn anfoddhaol mewn siarad ac ysgrifennu.

Nodweddion da

- Mae'r disgyblion o fewn i'r ddau gyfnod allweddol yn gwrando'n dda ar gyflwyniadau a chyfarwyddiadau.
- Yn CA1, ar ôl gwrando ar storiau a chyflwyniadau mae'r disgyblion yn dangos eu dealltwriaeth o'u cynnwys drwy roi sylwadau ar y digwyddiadau ac ymateb yn gywir i gwestiynau'r athrawon. Mae canran uchel o ddisgyblion B2 yn ymateb yn briodol i'r patrymau ieithyddol da a gyflwynir.
- Mae'r disgyblion yn datblygu gwybodaeth foddhaol o'r wyddor, ac, erbyn diwedd B2, maent yn dangos meistrolaeth o sgiliau sylfaenol darllen. Mae lleiafrif y disgyblion yn darllen yn ddeallus a chyda mynegiant.
- Mae safon yr ysgrifennu yn CA1 yn foddhaol. Mae'r disgyblion yn ysgrifennu i wahanol ddibenion ac mae'r lleiafrif yn llwyddo i ysgrifennu'n annibynnol gan ddefnyddio brawddegau cyflawn a sillafu cywir.
- Yn CA2, mae mwyafrif y disgyblion yn medru cynnal sgwrs elfennol yn foddhaol ac mae'r canran bychan sy'n meddu ar eirfa dda a chystrawen gywir yn gallu sgwrsio a thrafod yn hyderus yng ngweithgareddau'r dosbarth.
- Dengys mwyafrif disgyblion CA2 fwynhad wrth darllen ac yn y sesiynau darllen grŵp maent yn barod i drafod cynnwys llyfr ac i fynegi barn am y gwahanol elfennau. Mae'r goreuon yn medru darllen amrywiaeth o ffurfiau gyda rhuglder, mynegiant a chywirdeb, gyda rhai unigolion yn defnyddio ffrwyth eu darllen ffeithiol i ychwanegu at eu gwybodaeth mewn meysydd eraill ac i ymestyn eu sgiliau darllen uwch.
- Mae'r disgyblion yn ysgrifennu mewn amrywiaeth o ffurfiau, megis llythyr, dyddiadur a phortread. Mae mwyafrif y disgyblion yn medru ysgrifennu darnau syml, gan ddefnyddio geiriau sylfaenol a chystrawen elfennol. Mae'r goreuon, erbyn diwedd CA2, yn medru ysgrifennu'n estynedig a cheir rhai engreifftiau o waith da, yn cynnwys llythyron a darnau creadigol, ffeithiol a disgrifiadol.
- Ar y cyfan mae safon y llawysgrifen yn dda yn y ddau gyfnod allweddol ac mae mwyafrif y disgyblion yn cyflwyno eu gwaith yn gymen.

Diffygion

- Yn CA2, nid yw sgiliau llafar y mwyafrif o'r disgyblion wedi eu datblygu'n ddigonol ac, o ganlyniad, dangosant ddiffyg hyder pan yn siarad Cymraeg ac ni allant gynnig atebion na sgwrsio'n rhwydd.
- Yn CA1, amherir ar lithrigrwydd a dealltwriaeth nifer o ddisgyblion o'r testun oherwydd bod raid iddynt sillafu neu ddad-dynodi geiriau newydd wrth ddarllen.
- Yn CA1, mae nifer helaeth o'r disgyblion yn or-ddibynnol ar yr athrawes wrth lunio brawddegau, sillafu ac atalnodi ac, yn CA2, ni all mwyafrif y disgyblion ysgrifennu'n estynedig na defnyddio'r iaith mewn modd creadigol a dychmygus.

Saesneg

Cyflwynir Saesneg yn B2, ond nid yw'n bwnc a asesir yn ffurfiol. Yn CA2, mae safonau cyflawniad y disgyblion yn dda.

Nodweddion da

- Mae'r disgyblion yn gwrando'n ofalus ac yn arddangos diddordeb yn eu gwaith. Gwrandawant ar gyfarwyddiadau, ar straeon ac ar gyfraniadau'r naill a'r llall mewn gwersi.
- Maent yn siarad gyda hyder ac eglurder cynyddol. Cyfrannant yn dda at drafodaeth ac maent yn datblygu ystod eang o eirfa ac ymadroddion. Maent yn gofyn ac yn ateb cwestiynau'n hyderus.
- Mae gan y disgyblion ymagweddau cadarnhaol at ddarllen ac mae'r mwyafrif ohonynt yn darllen yn rhugl gyda dealltwriaeth a mynegiant da. Maent yn mwynhau darllen ffuglen a barddoniaeth a gallant drafod cynnwys y testun yn dda gan rannu barn amdano. Rhagwelant ddiwedd rhai storiau'n synhwyrol gan ddefnyddio eu gwybodaeth flaenorol ynghyd â'u dychymyg.
- Mae'r disgyblion yn ysgrifennu mewn amrywiaeth o ffurfiau. Gwyddant y gwahaniaeth rhwng ysgrifennu ffeithiol ac ysgrifennu creadigol. Maent yn strwythuro storiau'n effeithiol ac mae eu gallu i ysgrifennu barddoniaeth yn datblygu'n foddhaol. Gwnânt ddefnydd da o ansoddeiriau, cymariaethau a rhai priod-ddulliau yn eu gwaith creadigol.
- Mae safonau ysgrifennu hefyd yn dda. Yn aml maent yn ysgrifennu'n helaeth ac mae cyfran dda yn ysgrifennu mewn paragraffau. Mae safonau atalnodi yn amrywio ond, erbyn diwedd y cyfnod allweddol, mae'r mwyafrif yn gwneud defnydd da o ystod eang o atalnodau. Mae gan y disgyblion mwyaf abl ymwybyddiaeth dda iawn o arddull, ffurf a threfniadaeth.
- Mae mwyafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu llawysgrifen ddarllenadawy a thaclus. Cefnogir eu sgiliau cyflwyno'n aml â gwaith drafftio cydwybodol a defnydd effeithiol o TGCh.

Diffygion

- Nid oes diffygion arwyddocaol.

Mathemateg

Mae safonau cyflawniad yn dda yn CA1 a CA2.

Nodweddion da

- Yn CA1, mae gwybodaeth a dealltwriaeth y disgyblion o waith rhif yn datblygu'n dda. Gallant adio a thynnu, gan arddangos dealltwriaeth dda o fondiau rhif, ynghyd â'r gallu i gyflawni gwaith lluosi a rhannu sylfaenol. Gallant gyfrif ymlaen ac yn ôl mewn camau o feintiau gwahanol gan ddangos ymwybyddiaeth o batrymau rhif, yn cynnwys odrifau ac eilrifau. Maent yn deall y cysyniad o ddyblu rhifau ac mae eu dealltwriaeth o werth lle yn datblygu'n briodol.
- Mae ganddynt wybodaeth berthnasol o ffracsiynau syml ac mae eu dealltwriaeth o fesurau hyd a phwyso yn datblygu'n dda; mae'r mwyafrif ohonynt yn defnyddio mesurau safonol yn gywir.
- Mae'r disgyblion yn adnabod siapiau 2-D a 3-D ac yn medru disgrifio eu nodweddion. Gallant gasglu, cofnodi a dehongli data syml yn gywir. Mae ganddynt wybodaeth dda am arian ac yn eu trin yn hyderus wrth chwarae rôl yn y siop a'r caffi.
- Ar draws y ddau gyfnod allweddol rhoddir sylw amlwg i fathemateg pen a cheir cynnydd da mewn gwaith rhif. Mae mwyafrif y disgyblion hŷn yn medru ateb yn gyflym a chywir.

- Yn CA2, mae mwyafrif y disgyblion yn medru defnyddio'r pedair rheol rhif yn hyderus gyda'r disgyblion hŷn yn datblygu ystod o strategaethau ar gyfer datrys problemau mathemategol gan ddefnyddio geirfa fathemategol briodol.
- Mae mwyafrif y disgyblion â dealltwriaeth dda o fondiau rhif ac yn medru brasamcanu a mesur mewn metrau a centimetrau a phwyso mewn kilogramau a gramau.
- Mae gan y mwyafrif ddealltwriaeth foddhaol o ffracsiynau ac mae gan y disgyblion hŷn ddealltwriaeth dda o'r cysylltiad rhwng ffracsiynau, canrannau a degolion. Maent yn gyfarwydd â chysyniad amser a'r cloc 24 awr a medrant ddatrys problemau syml yn ymwneud â threigliad amser.
- Mae'r disgyblion yn adnabod nodweddion a phriodweddau siapiau 2-D a 3-D gyda'r disgyblion hŷn yn dangos gwybodaeth dda o onglau a graddau ac maent yn defnyddio geirfa briodol wrth eu trafod. Gallant ddarganfod perimedr ac arwynebedd siapiau.
- Medrant gofnodi a chyflwyno data ar ffurf graffiau gan ddehongli'r wybodaeth a gasglwyd yn ddeallus. Mae'r disgyblion mwyaf galluog yn dadansoddi, cymharu a dehongli data gyda chywirdeb manwl.

Diffygion.

- Yn CA2, nid yw mesitriolaeth y disgyblion ar ymchwilio annibynnol a'u profiad o ymgymryd â strategaethau mathemategol eu hunan, wedi datblygu'n ddigonol.

Gwyddoniaeth

Mae safonau cyflawniad yn dda yn CA1 a da iawn yn CA2.

Nodweddion da

- Yn CA1, mae'r disgyblion yn gwybod y gwahaniaeth rhwng pethau byw a phethau nad ydynt fyw ac maent yn gwneud cynnydd da yn eu gallu i ddosbarthu a rhagfynegi.
- Erbyn B2, maent yn datblygu sgiliau ymchwiliol da. Arsylwant yn ofalus wrthrychau a digwyddiadau pan yn cynnal arbrofion syml a datblygant eu medrau ymholi, darogan a dadansoddi a'u dealltwriaeth o brawf teg.
- Gall y disgyblion egluro swyddogaeth gwahanol aelodau o'r corff dynol a phwysigrwydd bwyta'n iach.
- Gallant wneud cylched trydan syml ac egluro cyfraniad bylbiau, batrioedd a switsys yn y broses.
- Maent yn cofnodi eu canfyddiadau'n ofalus.
- Yn CA2, mae'r disgyblion yn ymestyn eu dealltwriaeth o ymchwilio gwyddonol yn briodol. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o brofi teg ac maent yn rhagfynegi canlyniadau'n synhwyrol. Trafodant dystiolaeth yn ofalus ym mysg ei gilydd er mwyn tynnu casgliadau sy'n ddibynadwy.
- Mae ganddynt wybodaeth dda iawn o gylch bywyd planhigion ac o organau'r corff dynol a'u swyddogaethau.
- Mae eu dealltwriaeth o oleuni a ffynonellau goleuni yn datblygu'n dda iawn. Gwyddant sut y ffurfir cysgodion a pham bod eu maint yn newid wrth amrywio'r pellter rhwng y golau a'r gwrthrych.
- Mae eu dealltwriaeth o effeithiau grymoedd a ffrithiant ar symud yn dda.

- Deallant am bwysigrwydd cywirdeb wrth fesur a defnyddiant amrywiaeth addas o ddulliau cofnodi.

Diffygion

- Nid oes diffygion arwyddocaol.

Dylunio a thechnoleg

Mae safonau cyflawniad yn dda yn CA1 a da iawn yn CA2.

Nodweddion da

- Yn y ddau gyfnod allweddol, mae'r disgyblion yn cynllunio eu harteffactau'n briodol ar daflenni dylunio sydd wedi eu paratoi'n benodol.
- Yn CA1, mae'r disgyblion yn dilyn dull dysgu strwythuredig: arsylwi ac ymchwilio, trafod syniadau, gwneud mwy nag un dyluniad, dewis y gorau a gwneud a gwerthuso'r cynnyrch. Maent yn cyflawni'r tasgau hyn yn dda.
- Wrth greu cardiau cyfarch lliwgar, mae disgyblion B1 yn marcio, torri a gludo'n ofalus ac maent yn ymwybodol o bwysigrwydd bod yn drefnus. Mae disgyblion B2 yn creu pypedau gyda chydrannau corff symudol. Gwnânt awgrymiadau synhwyrol wrth werthuso eu gwaith ac mae'r cynnyrch o safon da ar y cyfan.
- Yn CA2, mae'r disgyblion yn dylunio a chreu ystod eang o wrthrychau gan gynnwys bwgan brain sy'n symud ac yn gwneud sŵn, anifail symudol, penwisg, a modelau o bontydd a model o bwll glo.
- Ym mhob achos, mae'r disgyblion yn trin a thrafod a chofnodi eu syniadau cychwynnol yn drwyadl gan ystyried sut orau i'w datblygu, dylunio ac ail ddylunio wrth fynd ymlaen, a gwerthuso'r arteffactau ar y diwedd.
- Dealla'r disgyblion sut mae systemau gêr syml yn gweithio a defnyddiant y wybodaeth wrth lunio rhai modelau.
- Yn B4, ymchwiliodd y disgyblion yn fanwl i adeileddau cyn ymroi i wneud eu modelau o bontydd. Rhoddir ystyriaeth fanwl i unrhyw wendid a ganfyddir cyn symud ymlaen.
- Mae sgiliau adeileddau, rheoli a mecanweithiau disgyblion B6 yn datblygu'n dda iawn wrth gyflawni'r dasg o lunio model o bwll glo o faint sylweddol.

Diffygion

- Nid oes diffygion arwyddocaol.

Technoleg gwybodaeth

Mae safonau cyflawniad yn dda yn CA1 a CA2.

Nodweddion da

- Yn gyffredinol mae disgyblion CA1 yn defnyddio'r offer yn fedrus. Maent yn datblygu'r sgiliau priodol ac yn defnyddio geirfa briodol sy'n benodol i'r pwnc.
- Mae'r disgyblion yn dangos medrusrwydd cynyddol wrth ddefnyddio'r bysellfwrdd a'r llygoden. Maent yn datblygu'r gallu i ddefnyddio CD-ROMau a rhaglenni amrywiol i gael mynediad i ystod ehangach o wybodaeth.
- Mae'r disgyblion yn defnyddio pecynnau celf yn effeithiol i dynnu lluniau a chyfleu syniadau yn eu gwaith thema.
- Yn CA2, mae sgiliau trin data'r disgyblion yn datblygu'n dda. Maent yn cynhyrchu graffiau amrywiol i arddangos data ar ffurf bar a llinell yn hyderus a phwrpasol mewn cysylltiad â'u hymchwiliadau yng ngwyddoniaeth a mathemateg.

- Erbyn diwedd CA2 mae sgiliau rheoli'r plant yn datblygu'n dda gan ymestyn o'r defnydd o'r Crwban i raglenni Logo a sytemau rheoli mwy cymhleth. Defnyddiant raglenni addas, megis Coco ac Eco Log, i ddatblygu gwaith i effaith da mewn mathemateg, gwyddoniaeth, daearyddiaeth a dylunio a thechnoleg.
- Defnyddia'r disgyblion raglenni arlunio yn fedrus gan greu darluniau graffeg o safon dda. Medrant ddefnyddio'r sganiwr a'r camra digidol yn hyderus gan gyfuno y gwahanol agweddau i greu cyflwyniadau megis cyflwyniad Teledu 5, a gynhyrchwyd gan ddisgyblion B5. Defnyddiant raglenni prosesu yn fedrus i gyhoeddi papurau newyddion, posteri ac erthyglau.
- Defnyddia disgyblion yr e-bost i anfon negesau i ysgol yn Lloegr, ac maent yn defnyddio'r Rhyngrwyd yn hyderus i ymchwilio testunau sy'n gysylltiedig â'u hastudiaethau mewn pynciau eraill.
- Gwna rhai dosbarthiadau ddefnydd da o'r bwrdd gwyn rhyngweithiol i ddatblygu eu sgiliau cyfrifiadurol ac i gyflwyno agweddau o bynciau ar draws y cwricwlwm.

Diffygion

- Nid oes diffygion arwyddocaol.

Hanes

Mae safonau cyflawniad yn dda yn CA1 a CA2.

Nodweddion da

- Yn CA1, mae'r disgybion yn datblygu'n dda yn eu defnydd o eirfa hanesyddol syml. Defnyddiant y termau cywir wrth ddisgrifio treigl amser ac maent yn ymdrin yn ddeallus â llinellau amser.
- Datblygant y syniad o gronoleg wrth edrych ar y newidiadau yn eu tŵf eu hunain ac arwyddion o'r gwahaniaethau dros gyfnod o amser o fewn eu teuluoedd.
- Drwy edrych ar luniau a ffotograffau cymharant y math o siopau oedd yn Abermaw yn nyddiau taid a nain a'r gwahaniaeth yn y nwyddau a werthid y pryd hynny o'i gymharu â heddiw.
- Gall y disgyblion drafod yn dda rhai storiau ac arferion lleol a bywydau pobl enwog.
- Yn CA2, mae'r disgyblion yn dwyn i gof yn dda ffeithiau hanesyddol wrth drafod enwogion o'r gorffennol, a llwyddant i roddi digwyddiadau yn eu cyd-destun cywir.
- Mae gan ddisgyblion B3 a B4 wybodaeth dda am y Celtiaid; gallant ddisgrifio eu dull o fyw yn fanwl a'r math o arfau a chelfi a ddefnyddid ganddynt.
- Gall disgyblion B5 ddisgrifio nodweddion amlycaf cyfnod oes Fictoria a chymharu'r amodau cymdeithasol a'r amodau gwaith yn ystod y chwyldro diwydiannol ym Mhrydain â rhai heddiw.
- Gall y disgyblion restru'r cwmniau a adeiladodd y rheilffyrdd yng ngogledd Cymru yn y degawd 1861-1870 ac egluro sut y dechreuodd cymdeithas newid o ganlyniad i hynny.
- Mae gwybodaeth disgyblion B6 o'r hyn a arweiniodd at yr Ail Ryfel Byd a'r ffeithiau am y rhyfel ei hun a'i effaith ar unigolion a chymdeithas yn datblygu'n dda.

Diffygion

- Nid oes diffygion arwyddocaol.

Daearyddiaeth

Mae safonau cyflawniad yn dda yn CA1 a CA2.

Nodweddion da

- Yn CA1, mae sgiliau mapio'r disgyblion yn datblygu'n dda. Dechreuant o fewn y dosbarth cyn ymestyn i'r ysgol ac yna y dref.
- Mae'r disgyblion yn defnyddio a deall nifer o dermau daearyddol ac yn gwneud gwaith maes pwrpasol ger yr ysgol.
- Gallant restru nodweddion naturiol a dynol y daith o'u cartref i'r ysgol ac yna'u cofnodi ar ffurf llunfap syml.
- Maent yn defnyddio sgiliau daearyddol yn effeithiol i astudio cymdogaeth yn Botswana, a chymharu prif nodweddion y lleoliad hwnnw ag Abermaw yng Nghymru.
- Yn CA2, mae'r disgyblion yn datblygu eu sgiliau map yn effeithiol gan ddefnyddio amrediad o fapiau a lluniau. Maent wedi cymharu mapiau modern o Gymru â map Humphrey Llwyd a luniwyd yn 1573 ac un a luniodd John Speed yn 1610.
- Mae eu gwybodaeth o symbolau ac allweddau yn dda a defnyddiant gyfesurynnau'n hyderus i ganfod lleoedd ar fap.
- Mae gwybodaeth y disgyblion o'r ardal leol yn datblygu'n dda. Gwyddant am brif nodweddion dynol a ffisegol Yr Aber ac maent wedi gwneud astudiaeth o daith yr afon Mawddach o'i tharddiad i'r môr.
- Mae'r disgyblion yn gallu cymharu'n dda eu hardal eu hunain â chymdogaethau cyferbyniol yng Nghymru a gallant egluro sut mae nodweddion ffisegol Cymru'n gwahaniaethu oddiwrth rhai Lesotho.
- Mae disgyblion B6 yn gwybod lleoliad yr Ardd Fotaneg Genedlaethol ger Llanarthne, a gallant restru ei nodweddion pwysicaf.

Diffygion

- Nid oes diffygion arwyddocaol.

Celf

Mae safonau cyflawniad yn dda yn CA1 a CA2.

Nodweddion da

- Mae disgyblion CA1 yn datblygu dealltwriaeth dda o iaith weledol llinell, naws, lliw, patrwm, gwead, siâp, ffurf a gofod a'i chymhwyso'n effeithiol yn eu gwaith. Maent yn defnyddio ystod amrywiol o ddefnyddiau, gan gynnwys pensiliau lliw, creonau, cwyr a phaent ac mae'r gwaith collage a'r lluniadau'n gyffredinol o safon dda.
- Gall mwyafrif drafod eu gwaith gyda phleser a deallusrwydd.
- Mae'r disgyblion yn gyfarwydd â gwaith artistiaid megis Kyffin Williams, Ogwyn Davies, Van Gogh a Cezanne. Maent yn astudio'r technegau a ddefnyddir ganddynt, ac yn dynwared eu harddull yn eu gwaith eu hunain.

- Yn CA2, mae'r disgyblion yn defnyddio ystod o gyfryngau a dulliau i fynegi eu syniadau gweledol ar ffurf dau a thri dimensiwm.
- Gwna'r disgyblion ddefnydd addas o TGCh i gynhyrchu lluniau a phatrymau deniadol fel rhan o'u gwaith thema.
- Mae'r disgyblion wedi elwa o weithio gyda chrefftwyr ac artistiaid lleol, megis Catrin Williams ac Eluned Rhys Parry, ac mae eu cynhyrchiadau yn hyrwyddo ansawdd amgylchedd yr ysgol. Ceir enghreifftiau da o amgylch yr ysgol o gyweithiau celf disgyblion B6 a murluniau sy'n gysylltiedig â gwaith thema y dosbarthiadau.
- Mae safon y gwaith celf yn Oriel y Traeth ac yn y dosbarthiadau yn dda ac yn dangos y gofal a'r sylw a rydd y disgyblion i arddangos y gwaith.

Diffygion

- Nid yw disgyblion CA1 yn astudio gwaith artistiaid o Gymru.

Cerddoriaeth

Mae safonau cerdd yn foddhaol yn CA1 ac yn dda yn CA2.

Nodweddion da

- Mae disgyblion CA1 yn canu ystod foddhaol o ganeuon sy'n addas ar gyfer eu hoedran a lefel eu datblygiad. Mae ansawdd y canu yn foddhaol. Gwneir defnydd effeithiol o rai caneuon i hybu datblygu ieithyddol y disgyblion.
- Wrth ymchwilio i wahanol synau dônt i adnabod synau offerynnau heb eu tiwnio ac wedi eu tiwnio. Gallant efelychu rhythmau syml yn gywir a chadw curiad. Maent yn medru defnyddio offerynnau taro yn gywir a'u chwarae yn y lle priodol wrth ddilyn sgôr graffig.
- Yn CA2, mae'r disgyblion yn canu ystod addas o ganeuon yn hyderus a chânt brofiad o berfformio'n gerddorol mewn gwasanaethau, cyngherddau a digwyddiadau yn y gymuned. Mae ansawdd y canu yn dda; a rhoddant sylw i draw a mynegiant.
- Mae gan y mwyafrif o'r disgyblion ddealltwriaeth sylfaenol o hanfodion cyfansoddi a gallant gyfansoddi darnau syml o gerddoriaeth. Mewn ymateb i symbyliadau amrywiol megis llun, pennill neu stori, gall y disgyblion gyfansoddi a threfnu cerddoriaeth drwy archwilio a defnyddio amrediad o ffynonellau sain. Mae gwybodaeth disgyblion o elfennau cerddorol megis dynamig, gwead, strwythur traw a thempo'n datblygu'n dda.
- Gallant enwi offerynnau a glywant mewn darnau cerddorol. Mae'r disgyblion yn gwrando ar waith cyfansoddwyr enwog a gallant adnabod nodweddion cerddorol, gan dynnu sylw at debygrwydd a gwahaniaethau. Defnyddiant eirfa gerddorol yn gywir.

Diffygion

- Yn CA1, anaml mae'r disgyblion yn defnyddio offerynnau ar gyfer perfformio a chyfansoddi, ac nid yw eu gallu i werthuso a thrafod eu gwaith eu hunain a gwaith cyfansoddwyr eraill wedi ei ddatblygu'n ddigonol.

Addysg gorfforol

Mae safonau cyflawniad yn foddhaol yn CA1 a da yn CA2.

Nodweddion da

- Yn y ddau gyfnod allweddol, mae'r disgyblion yn gwisgo'n addas ar gyfer y gwersi ac maent yn cynhesu'n briodol ar ddechrau gwers ac ymlacio ar y diwedd.
- Yn CA1, mae mwyafrif y disgyblion yn dilyn cyfarwyddiadau'r athrawon yn agos ac yn gwneud defnydd da o ofod.
- Wrth symud o gwmpas y neuadd mae'r disgyblion yn newid cyfeiriad a chyflymdra'n foddhaol ac mae disgyblion B2 yn cwblhau dilyniant o symudiadau a siapiau'n effeithiol.
- Mae disgyblion mwyaf abl yn datblygu cydsymud da rhwng llygaid a llaw wrth daflu a dal pêl.
- Yn CA2, mae safon perfformiad y disgyblion mewn gymnasteg a dawns yn gyffredinol dda ac maent yn arddangos cynnydd amlwg yn natblygiad eu sgiliau.
- Mae gan y disgyblion reolaeth dda ar eu cyrff a gweithiant yn effeithiol fel unigolion a pharau ac mewn grwpiau. Perfformiant ystod o symudiadau sylfaenol mewn gwaith llawr ac maent yn cysylltu symudiadau'n effeithiol a llyfn.
- Mewn gweithgareddau gemau y tu allan, mae'r disgyblion yn arddangos sgiliau da wrth drafod pêl ac wrth gyfrannu mewn sesiwn ymarfer ar gyfer rownderi.

Diffygion

- Yn CA1, nid yw rhai o'r disgyblion ieuengaf yn canolbwyntio'n ddigonol nac yn perfformio cystal â'u gallu.

Addysg grefyddol

Mae safonau cyflawniad yn dda yn CA1 a CA2.

Nodweddion da

- Yn CA1, mae'r disgyblion yn gwneud datblygiad cynyddol yn eu dealltwriaeth o'r berthynas sydd rhwng cred a moes, fel yr amlygir mewn gwerthoedd megis rhannu, maddau a pharchu.
- Gall y disgyblion adalw'n dda rhai storiau adnabyddus o'r Beibl ac mae ganddynt wybodaeth am wyliau ac arferion Cristnogol ac am rai sy'n perthyn i grefyddau eraill.
- Gwerthfawrogant fod goleuni yn symbol pwysig yn y grefydd Gristnogol yn ogystal â'r grefydd Hindwaidd a gallant egluro'n syml paham.
- Yn CA2, mae'r disgyblion yn ymweld ag addoldy lleol a gallant restru prif nodweddion yr adeilad a'r dodrefn a'r dull o addoli sy'n digwydd ynddo.
- Gwyddant pam bod yr arfer o fedydd yn digwydd mewn addoldy a gallant egluro ystyr symbolaidd dŵr a gwisgoedd gwyn.
- Trwy astudio stori o ddau draddodiad gwahanol, y naill o'r Hen Destament a'r llall o lyfr sanctaidd y Moslemiaid, a gweld y tebygrwydd rhyngddynt, maent yn sylweddoli bod rhai gwreiddiau cyffredin i'r crefyddau hyn.
- Mae gwybodaeth gynyddol gan y disgyblion hynaf am brif nodweddion y grefydd Iddewig.

Diffygion

- Nid oes diffygion arwyddocaol.

8. GWELLA'R YSGOL

8.1 Cynnydd Ers yr Arolygiad Diwethaf

Roedd y materion allweddol a ganfyddwyd yn yr arolwg blaenorol, a gynhaliwyd yn nhymor yr hydref 1997, fel a ganlyn:

Bod angen:

- codi safonau cyflawniad mewn Cymraeg a cherdd yn CA1 a CA2;
- rhoi mwy o bwyslais ar ddulliau addas o addysgu iaith mewn sefyllfa ddwyieithog;
- gwella cyfundrefn marcio a gosod targedau realistig i wella;
- parhau i ddatblygu swyddogaeth monitro yr arweinyddion cwricwlaidd;
- cynnwys yn y CDY dargedau a blaenoriaethau tymor byr a thymor hir a fframwaith cyllidol clir;
- sicrhau bod cynnwys y Prosbectws a'r Adroddiad Blynyddol i Rieni yn cyfateb â'r gofynion statudol.

Ymatebodd yr ysgol i'r materion hyn a chafwyd gwelliant amlwg neu peth gwelliant yn y rhan fwyaf ohonynt. Mae'r safonau mewn Cymraeg a cherddoriaeth yn CA1 bellach yn foddhaol ac maent yn dda mewn cerddoriaeth yn CA2. Parhau'n anfoddhaol, fodd bynnag, mae safonau mewn elfennau pwysig o Gymraeg yn CA2. Mynychodd yr athrawon gyrsiau addas mewn addysgu iaith mewn sefyllfa ddwyieithog ac mae dylanwad hynny i'w ganfod yn y gwaith yn CA1. Fodd bynnag, nid yw wedi dylanwadu'n ddigonol hyd yma ar fedrau Cymraeg mwyafrif y disgyblion yn CA2. Gwelwyd gwelliant amlwg mewn asesu'n gyffredinol, gan gynnwys y gyfundrefn farcio, a chynhwyswyd yn y CDY flaenoriaethau clir sydd wedi'u costio'n ofalus. Heb fod yn ddigon uchelgeisiol o hyd yw rhai o'r targedau a roddir i'r disgyblion, ac ni ddatblygwyd yn ddigonol swyddogaeth monitro y cydlynwyr pwnc. Mae'r prosbectws a'r Adroddiad Blynyddol i Rieni yn awr yn cyfateb â'r gofynion statudol.

8.2 Materion Allweddol i Weithredu Arnynt

Mae angen:

- codi safonau cyflawniad y disgyblion mewn siarad ac ysgrifennu Cymraeg yn CA2;
- dileu'r diffygion mewn cerdd ac addysg gorfforol yn CA1 ble mae'r safonau'n foddhaol;
- rhoi sylw i gynllunio'r medrau allweddol yn CA2 i sicrhau gwell cydbwysedd yn y ddarpariaeth iaith a chodi safonau'r disgyblion yn eu defnydd o'r Gymraeg ar draws y cwricwlwm yn CA2;
- datblygu ymhellach rôl y cydlynwyr pwnc yn y broses fonitro;
- mireinio gweithdrefnau hunan-arfarnu'r ysgol i sicrhau eu bod yn arfau effeithiol i hyrwyddo safonau uchel a symud yr ysgol ymlaen.

ATODIAD

A. Gwybodaeth sylfaenol ar yr ysgol

Enw'r Ysgol	Ysgol y Traeth
Math	Cymunedol/dan ofal AALl
Ystod oedran y disgyblion	3-11
Cyfeiriad yr ysgol	Princes Avenue Abermaw Gwynedd
Côd-post	LL42 1HH
Rhif ffôn	01341 280479

Enw'r Pennaeth	Mr Ywain Myfyr
Dyddiad penodi	Mehefin 2002
Cadeirydd y Llywodraethwyr	Parchedig K Horswell
Arolygydd Cofrestredig	Mr E Lloyd Williams
Dyddiad yr arolygiad	Mai 19-22, 2003

B. Data a dangosyddion yr ysgol

Nifer y disgyblion ym mhob grŵp blwyddyn									
Grŵp blwyddyn	M (call)	D	B1	B2	B3	B4	B5	B6	Cyfanswm
Nifer y disgyblion	12	24	19	23	23	22	20	22	165

Nifer yr athrawon			
	Llawn-amser	Rhan-amser	Cyfartal ag amser llawn (call)
Nifer yr athrawon	7	2	8.3

Gwybodaeth staffio	
Cymhareb disgybl:athro, ac eithrio dosbarthiadau meithrin ac arbennig	18.4:1
Cymhareb plentyn:oedolyn (call), meithrin yn unig	13:1
Maint y dosbarthiadau ar gyfartaledd, ac eithrio dosbarthiadau meithrin ac arbennig.	21.8
Cymhareb athro: dosbarth	1.2:1

Canran presenoldeb y tri thymor cyfan cyn yr arolygiad.				
	D	**CA1**	**CA2**	**Yr ysgol gyfan**
Haf 2002	90.6	92.2	90.4	91.1
Hydref 2002	90.4	94.7	90.7	91.9
Gwanwyn 2003	91.4	92.4	95.0	93.0

Canran o'r disgyblion sydd â'r hawl i gael prydau bwyd rhad ac am ddim	30
Nifer y disgyblion a waharddwyd yn ystod y 12 mis blaenorol	0

C. Canlyniadau asesiadau'r CC ac arholiadau cyhoeddus

DIWEDD CYFNOD ALLWEDDOL 1: 2002

Canlyniadau Asesiadau'r CC: CA1: 2002			Cyfanswm disgyblion B2: 21					
Canran y disgyblion ar bob lefel								
			D	W	1	2	3	4
CYMRAEG	Asesiad Athrawon	Ysgol	0	0	15	85	0	0
		Cenedlaethol	0	1	12	66	21	0
CY: Llafaredd	Asesiad Athrawon	Ysgol	0	8	26	66	0	0
		Cenedlaethol	0	1	12	67	20	0
CY: Darllen	Asesiad Athrawon	Ysgol	0	8	26	66	0	0
		Cenedlaethol	0	2	16	59	23	0
CY: Ysgrifennu	Asesiad Athrawon	Ysgol	0	10	30	60	0	0
		Cenedlaethol	0	3	22	66	9	0
MATHEMATEG	Asesiad Athrawon	Ysgol	0	0	10	52	38	0
		Cenedlaethol	0	2	10	65	23	0
GWYDDONIAETH	Asesiad Athrawon	Ysgol	0	0	5	90	5	0
		Cenedlaethol	0	2	11	70	17	0

Canran y disgyblion yn cyrraedd o leiaf lefel 2 mewn mathemateg, gwyddoniaeth a Saesneg neu Cymraeg (iaith gyntaf), yn ôl asesiad athrawon			
Yn yr ysgol	86	Yng Nghymru	80

D Disgyblion sydd wedi'u datgymhwyso o'r trefniadau statudol
W Disgyblion sy'n gweithio tuag at lefel 1

DIWEDD CYFNOD ALLWEDDOL 2: 2002

Canlyniadau Asesiadau'r CC: CA2: 2002			Cyfanswm disgyblion B6: 24										
Canran y disgyblion ar bob lefel													
			D	A	N	B	W	1	2	3	4	5	6
Saesneg	Asesiad Athrawon	Ysgol	0	0	0	0	0	12	4	17	42	25	0
		Cened	0	0	0	0	0	1	6	17	46	30	0
	Prawf/Tasg	Ysgol	9	0	4	0	0	0	5	5	45	41	0
		Cened	0	2	1	1	0	0	5	12	41	38	0
Cymraeg	Asesiad Athrawon	Ysgol	17	0	0	0	0	8	37	17	21	0	0
		Cened	1	0	0	0	0	1	4	19	50	23	0
	Prawf/Tasg	Ysgol	16	0	0	0	5	0	10	58	26	0	0
		Cened	1	2	0	1	0	0	3	18	51	24	0
Mathemateg	Asesiad Athrawon	Ysgol	0	0	0	0	0	9	0	33	33	25	0
		Cened	0	0	0	0	0	1	4	19	47	28	0
	Prawf/Tasg	Ysgol	9	0	0	0	0	0	0	27	41	32	o
		Cened	0	2	1	1	0	0	4	19	43	30	0
Gwyddoniaeth	Asesiad Athrawon	Ysgol	0	0	0	0	0	8	0	8	46	38	0
		Cened	0	0	0	0	0	0	2	13	50	33	0
	Prawf/Tasg	Ysgol	0	4	0	0	0	0	0	4	17	75	0
		Cened	0	2	0	0	0	0	1	10	47	38	0

Canran y disgyblion yn cyrraedd o leiaf lefel 4 mewn mathemateg, gwyddoniaeth a naill ai Cymraeg (iaith gyntaf) neu Saesneg			
yn ôl Asesiad Athrawon		**drwy Brawf**	
Yn yr ysgol	68 y cant	Yn yr ysgol	63 y cant
Yng Nghymru	70 y cant	Yng Nghymru	68 y cant

D: Wedi'u heithrio neu wedi'u datgymhwyso o dan Adran 364 neu 365 o Ddeddf Addysg 1996.
A: Disgyblion a fethodd â chofnodi lefel oherwydd absenoldeb.
N: Disgyblion a fethodd â chofnodi lefel am resymau ac eithrio absenoldeb.
B: Disgyblion na chofrestrwyd ar gyfer y profion am eu bod yn gweithio y tu allan i'r lefelau a bennwyd ar gyfer profion.
W: Yn gweithio tuag at lefel 1.

D. Sail dystiolaeth yr arolygiad

- Ymwelodd tri arolygydd, yn cynnwys yr arolygydd lleyg, â'r ysgol am gyfanswm o ddeg o ddiwrnodau arolygydd.
- Arolygwyd 50 o wersi neu rannau o wersi.
- Gwrandawyd ar ddisgyblion, oedd yn cynrychioli oed a gallu gwahanol, yn darllen. Siaradwyd â nifer o ddisgyblion a'u holi am agweddau ar eu gwaith.
- Archwiliwyd sampl o'u gwaith ysgrifenedig ac ymarferol yn yr holl bynciau.
- Cynhaliodd yr arolygwyr drafodaethau gyda'r athrawon ar ddiwedd y dyddiau arolygu ar ystod helaeth o faterion yn ymwneud â gwaith yr ysgol. Ystyriwyd dogfennau cynllunio'r ysgol a'i hamryfal ffeiliau a chofnodion.
- Yr oedd yr arolygwyr yn bresennol yng ngwasanaethau'r bore ac amser cinio yn y neuadd.
- Mynychodd saith o rieni'r cyfarfod cyn yr arolygiad a chwblhawyd 49 holiadur.
- Cynhaliodd yr arolygwyr gyfarfod â'r corff llywodraethol cyn ac ar ôl yr arolwg.

E. Cyfansoddiad a chyfrifoldebau'r tîm arolygu

Arolygydd	Math	Cyfrifoldebau Agwedd	Cyfrifoldebau Pwnc
Mr E Lloyd Williams	ACof	Cyd-destun Prif ganfyddiadau Safonau addysgol a gyflawnir gan y disgyblion Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion Ansawdd yr addysgu Y cwricwlwm Ansawdd hunan-arfarnu a chynllunio ar gyfer gwella Arweinyddiaeth ac effeithlonrwydd Gwella'r ysgol	Saesneg gwyddoniaeth dylunio a thechnoleg hanes daearyddiaeth addysg gorfforol addysg grefyddol
Mr D W Bundock	Tîm	Ymddygiad ac agweddau Asesu, cofnodi a chyflwyno adroddiadau Cymorth, cyfarwyddyd a lles disgyblion Darpariaeth ar gyfer disgyblion ag AAA Staffio, adeiladau ac ystafelloedd ac adnoddau dysgu	blynyddoedd cynnar Cymraeg mathemateg technoleg gwybodaeth cerddoriaeth celf
Mr W Owen	Lleyg	Presenoldeb Partneriaeth gyda'r rhieni a'r gymuned, ysgolion a sefydliadau eraill Partneriaeth gyda diwydiant	

Hoffai'r arolygwyr a fu'n ymweld â'r ysgol ddiolch i'r llywodraethwyr, i'r pennaeth a'r staff, am y cydweithrediad a'r cwrteisi a roddwyd iddynt yn ystod yr arolygiad.